



# Diweddariad Cymunedol

Gwanwyn 2017



BBYAC

## Yn y rhifyn hwn

**T1** Partner Newydd i'r Ganolfan Ymwelwyr

**T2** Gwobr Eco-ganolfan  
Gwobrau i Wirfoddolwyr  
Gwirfoddolwyr  
yr ucheldir

**T3** Cynllun Lle  
BBC Countryfile  
Llwyddiant y Geoparc

**T4** Prosiectau cymunedol  
Cryw Craggy  
Dathliadau'r Nadolig  
yng Nghraig- y- nos

**T5** Newyddion Ecoleg  
Mae Archeoleg yn hwy!  
Castell y Gelli  
Chwedlau Cymreig

**T6** Diwrnod gyda'r  
hyfforddeion  
Newyddion grantiau

**T7** Digwyddiadau

**T9** Rhestr A-Y  
Cysylltiadau'r Awdurdod

## Helo a chroeso

i rifyn Gwanwyn 2017 o'r Diweddariad Cymunedol gan  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym yn gobeithio'n fawr y byddwch yn mwynhau dal i fyny gyda gwaith, newyddion a straeon o bob cwr o'r Parc Cenedlaethol.

Os hoffech chi gael eich rhoi ar ein rhestr bostio neu gyfrannu at rifynnau yn y dyfodol, cofiwch gysylltu â'r Tîm Cymunedau drwy'r A-Y o wasanaethau ar ddiwedd y cylchlythyr hwn. Mae'r cylchlythyr hwn hefyd ar gael ar-lein yn <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/diweddariad-cymunedol/>  
Diolch yn fawr.

*John Cook* Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## Partner Newydd i Ganolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Dewiswyd Aramark Limited i'r redeg y caffi a'r ystafell de yng  
Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

Bydd pawb o'r staff presennol yn cael eu cyflogi gan y darparwr newydd. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr fod y caffi'n parhau i gyflwyno'r gwasanaeth gwych y mae'r ymwelwyr wedi dod i arfer ag ef. Llwyddodd Aramark i greu argraff ar yr Awdurdod o ran eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud y lleoliad yn atyniad poblogaidd i ymwelwyr a'r gymuned leol. Roedden nhw hefyd yn barod i wneud buddsoddiad sylweddol i wella'r caffi. Bydd Aramark yn buddsoddi £50,000 yn gwella'r cyfleusterau ac ymddangosiad y caffi. Dywedodd Marie Healy, Rheolwr Datblygu Busnes Aramark:

"Rydym yn gyffrous iawn o ennill y contract hwn. Mae Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn safle eiconig sy'n denu twristiaid a thrigolion lleol fel ei gilydd. Credwn y gallwn ychwanegu gwir werth i'r naws ac i'r arlwy yn yr ystafell de fel y byddan nhw eisiau dod nôl dro ar ôl tro. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb ym mis Ebrill."

Creodd y siop grefftiau ac anrhegion newydd sy'n cael ei rhedeg gan grŵp cynhyrchwyr crefftiau lleol Platform One argraff ar yr ymwelwyr a ddaeth i'r ganolfan yn ystod y gaeaf eleni. Cadarnhaodd yr Awdurdod hefyd y bydd y bartneriaeth yn parhau i 2017. Bydd y rhaglen ddigwyddiadau'n parhau yn y Ganolfan yn 2017 gyda digwyddiadau gwyllo sêr, sioeau pebyll Cotswold, digwyddiadau llywio, gweithgareddau i blant a'n Ffair Haf dros wyl y banc mis Awst.

Yn ychwanegol, gall preswylwyr ac ymwelwyr gael fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Parc Cenedlaethol a'i atyniadau o'r ardal wybodaeth.



## YHA Bannau Brycheiniog Danywenallt yn ennill Gwobr Eco-ganolfan Platinwm

Mae ein partner, YHA Bannau Brycheiniog Danywenallt ger cronfa ddwr Talybont, wedi ennill gwobr amgylcheddol Eco-ganolfan ar y lefel uchaf gan Cadwch Gymru'n Daclus. Yn debyg i'r cynllun Eco-ysgolion, mae'r hostel a'r ganolfan addysg yn gorfod dangos gwelliant amgylcheddol parhaus.

Mewn partneriaeth â'r YHA, mae staff addysg y Parc Cenedlaethol wedi gweithio dros y deng mlynedd diwethaf yn monitro bywyd gwyllt, yn creu cynefinoedd ac yn mabwysiadu arferion cynaliadwy megis defnyddio llai o ynni a dŵr a chreu llai o wastraff.

Drwy gyfrwng profiadau addysgol dan arweiniad staff addysg y Parc Cenedlaethol, mae llawer o blant ysgol wedi cyfrannu yn ystod ymweliadau preswyl drwy gymryd rhan mewn arolygon bywyd gwyllt a dysgu mwy am sut i fod yn ecologyfeillgar.

Meddai Julie Giles o Cadwch Gymru'n Daclus: "Mae'r effaith ar ymwelwyr a'r anogaeth i ofalu am yr amgylchedd dros y blynyddoedd yn gyflawniad gwych y dylai'r Ganolfan fod yn falch honno. Da iawn."

I gael rhagor o wybodaeth am ymweliadau addysgol i Danywenallt a chanolfannau Awdurdod Parc Cenedlaethol ewch i:  
<http://www.bannaubrycheiniog.org/dysgu/canolfannaudysgu/>  
Ffôn: 01874 624437

## Gwirfoddolwyr Bannau Brycheiniog yn dathlu ennill dwy wobwr yng Ngwobrau Parciau Cenedlaethol y DU



**Aelodau'r gymuned Gurkha yn gweithio ar bont droed ger Fenni Fach.**

mis. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae Jo wedi cyflawni ystod eang o swyddogaethau gwirfoddol gan gynnwys gwaith ymarferol yn atgyweirio llwybr troed a chynnal a chadw gerddi yn ogystal ag arwain prosiect gyda grŵp eco MIND lleol yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol.

Cafodd enillwyr gwobr y Grŵp, Grŵp Llwybr Troed y Gymuned Nepalaid eu cydnabod am y gwaith anhygoel y gwnaethant yn Aberhonddu. Mae'r llwybr troed y maent wedi ei adnewyddu, sydd bellach wedi ei enwi'n 'Llwybr y Gyrcas' yn swyddogol, yn arwain o Brom Aberhonddu i'r Fenni Fach. Cafodd ei adnewyddu dros gyfnod o chwe mis gan gymuned y Gyrcas a oedd eisiau gwneud rhywbeth i ymateb i'r haelioni aruthrol a ddangoswyd gan bobl Aberhonddu yn dilyn y daeargryn a ddinistriodd Nepal.

Maen rhaid sôn am Wirfoddolwyr-ECO, MIND Aberhonddu a'r cylch a oedd yn cyrraedd y rhestr fer am wobwr. Maent wedi ymgymryd â phrosiectau o amgylch y Parc Cenedlaethol yn cynnwys plannu planhigion cyfeillgar i wenyn a rheoli'r ardd Bywyd Gwyllt yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol. Maent hefyd wedi ennill achrediad Agored Cymru trwy fynychu cyrsiau Sgiliau Gwledig y rhedwyd gan Tîm Cymunedau y Parc Cenedlaethol a bydd yn mynychu mwy o gyrsiau dros y flwyddyn nesa i wella eu gwybodaeth a sgiliau.

Am fwy o wybodaeth am wirfoddoli ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ewch i <http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/volunteering/> neu cysylltwch â Jackie Thomas, Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr [jackie.thomas@beacons-npa.gov.uk](mailto:jackie.thomas@beacons-npa.gov.uk) Tel: 01874 620451

## Yn eisiau: Gwirfoddolwyr ucheldir ar gyfer gwaith cadwraeth pwysig

**Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymestyn gweithgareddau'r Gwirfoddolwyr Llwybrau Ucheldir hynod boblogaidd sydd wedi ymrwymo dros 3200 o oriau o amser gwirfoddolwyr y llynedd.**

Yn ogystal â'r gwaith o gynnal ac atgyweirio llwybrau'r ucheldir ym Mannau Brycheiniog, mae'r grŵp yn ychwanegu dau griw gwaith dydd Mercher arall bob mis. Bydd y gwirfoddolwyr yn helpu i adfer cynefinoedd rhyngwladol-bwysig yn y Mynyddoedd Duon a hefyd yn helpu i wella mynediad drwy glirio llystyfiant. Os oes gennych ddiddordeb, ewch i wefan yr Awdurdod neu cysylltwch â Jackie Thomas, Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr: (manylion uchod)

**Gwirfoddolwyr ucheldir yn adfer llwybr yn y Mynyddoedd Duon.**



**YHA Bannau Brycheiniog  
Danywenallt**

## Gwneud Cynllun Lle yn y Parc Cenedlaethol

**Efallai eich bod yn cofio erthygl flaenorol ynglŷn â'r Gelli Gandryll a Chrughywel yn gwneud Cynlluniau Lle ar gyfer eu hardal.**

Efallai eich bod yn cofio erthygl flaenorol ynglŷn â'r Gelli Gandryll a Chrughywel yn gwneud Cynlluniau Lle ar gyfer eu hardal. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu drwy ymgynghori â'r gymuned a chyflwynir cynllun gweithredu pum mlynedd sy'n edrych ar yr hyn y mae ar y trefi ei angen i'w helpu i ddatblygu'n gynaliadwy i'r dyfodol. Rydym yn falch o ddweud wrthyfch fod cynllun y Gelli Gandryll wedi cael ei fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn 2016, sy'n golygu bod yn rhaid i'r ddogfen gael ei hystyried mewn penderfyniadau cynllunio a wneir yn y dref. Mae'r cynllun ar gael yma: <http://www.beacons-mpa.gov.uk/wp-content/uploads/Hay-Town-Plan-1.pdf>. Mae ynddo gamau i roi sylw i amrywiol faterion a themâu gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, ieuencid, dinasyddion hŷn, yr amgylchedd, cyflogaeth, tai, parcio a theithio.

Nid yw Chrughywel yn bell y tu ôl i'r Gelli ac maent newydd gwblhau drafft terfynol o'u cynllun eu hunain. Bydd hwn ar gael i ymgynghori arno o 16eg Chwefror ymlaen yma: <http://www.beacons-mpa.gov.uk/planning/draft-strategy-and-policy/consultations/>

Rydym hefyd yn falch o ddweud bod Aberhonddu a Thalgarth wedi dechrau gweithio ar gynlluniau a gyda lwc cawn weld y rhain yn dwyn ffrwyth yn y 18 mis nesaf.

Os oes gan eich cymuned chi ddi-ddordeb mewn gwneud ei Gynllun Lle ei hun, byddem yn falch o weithio gyda chi. Gyda help Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru, rydym wedi gwneud arweiniad ar sut i fynd ati i ysgrifennu Cynllun Lle; mae ar gael yma: <http://www.beacons-mpa.gov.uk/planning/draft-strategy-and-policy/place-plans/>

Os hoffech wybod rhagor gallwch anfon e-bost at ein tîm Cynlluniau Lle [placeplans@beacons-mpa.gov.uk](mailto:placeplans@beacons-mpa.gov.uk) neu ffonio 01874 620465.



**Matt Baker** o raglen **Countryfile** gydag **Arweinyddion Gweithgareddau'r Parc Cenedlaethol**, **Billy ac Ilona**, a'r bobl ifanc o **Gwalia**.

## Countryfile y BBC yn ffilmio gyda'r Tîm Cymunedau

**Ymwelodd rhaglen Countryfile y BBC â'r Parc cenedlaethol i ffilmio rhaglen a gafodd ei darlledu ar 27ain Tachwedd. Treuliodd Matt Baker y diwrnod gyda Tîm Cymunedau'r Parc Cenedlaethol ar Fynydd Illtud lle bu'r Arweinwyr Gweithgareddau Geogelcio, Billy ac Ilona yn cyflwyno geogelcio i Matt.**

Mae geogelcio yn debyg i helpfa drysor ond eich bod yn defnyddio technoleg GPS i ddod i hyd i 'gelciau' neu flychau. Cawsant gyfle i arddangos eu Prosiect Geogelcio, sy'n cael ei ariannu drwy Chwaraeon Cymru, ac sydd â'r nod o geisio cael grwpiau o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed o ardaloedd yng nghymoedd y de i wneud mwy o ymarfer corff. Roedd yn gyfle gwyb iddynt gael sylw cenedlaethol i'r prosiect.

Rhodddwyd sylw i Gwalia hefyd, sef grŵp cymorth tai lleol; cafodd dau o bobl ifanc siarad gyda Matt Baker am sut mae dysgu i geogelcio gyda'r Tîm Cymunedau wedi cael effaith positif ar eu bywydau.

Mae dros 827 o bobl ifanc nawr wedi elwa'n uniongyrchol o'r Prosiect Geogelcio a gyda'i gilydd maent wedi cerdded oddeutu 2,500km – mae hyn yn cyfateb i ddwywaith hyd arfordir Cymru. Mae'r llwyddiant wedi bod cystal fel bod Chwaraeon Cymru wedi cytuno i ymestyn y prosiect i barhau yn 2017/18 a bydd yn awr yn cynnwys ardaloedd Powys a Chastell-nedd Port Talbot yn ogystal â Merthyr Tudful, Torfaen, Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent.

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Billy Morgan neu Ilona Carati**  
[geocaching@beacons-mpa.gov.uk](mailto:geocaching@beacons-mpa.gov.uk) Ffôn: 01874 624437

## Llwyddiant arall i'r Geoparc

**Mae Geoparc Byd-eang UNESCO y Fforest Fawr newydd gael 'cerdyn gwyrdd' gan UNESCO.**

Mae Alan Bowring, Swyddog Datblygu'r Geoparc yn ysgrifennu: Mae hyn yn gyfystyr â chanmoliaeth, y trydydd ni ei chael ers i ni ddod yn Geoparc yn 2005. Mae dal llawer i'w wneud cyn ein hailasesiad nesaf yn 2020. Mae cynlluniau cynnar ar waith ar gyfer datblygu Parc Gwledig Craig-y-nos fel Canolbwynt Geoparc newydd; rydym yn gobeithio y bydd yn helpu pobl i gael mwy allan o'u hymwelriad â rhannau uchaf Cwm Tawe – ac mewn mannau eraill o gwmpas y Geoparc. Un o'r datblygiadau cyntaf fydd dehongliad o'r olygfa o'r Geoteras y tu allan i'r caffi 'Changing Seasons'. Ac rydym yn cynyddu niferoedd ein Llysgenhadon Geoparc a'n Llysgenhadon



Lleol – pobl leol o fusnesau a'r gymuned sy'n awyddus i rannu eu gwybodaeth am y lle gydag eraill. Hefyd, bydd yr ŵyl Geoparc bythol boblogaidd yn cael ei chynnal ym mis Mai. Am fwy o wybodaeth

<http://www.geoparcyfforestfawr.org.uk/> neu cysylltwch ag Alan Bowring, [alan.bowring@beacons-mpa.gov.uk](mailto:alan.bowring@beacons-mpa.gov.uk) Ffôn 01874 620415

**Mae'r olygfa o'r teras yng Nghraig-y-nos yn rhoi ichi flas ar ddaear, archeoleg a bywyd gwyllt, harddwch ac antur.**



## Criw Craggy yn paratoi ar gyfer y gwanwyn.

**Mae Criw Craggy, Cyfeillion Parc Gwledig Craig-y-nos, newydd ddathlu eu blwyddyn gyntaf ac maent yn mynd o nerth i nerth.**

Maent wedi llwyddo i gael cyllid i brynu offer ar gyfer y gwirfoddolwyr gan gynnwys peiriant hollti coed i brosesu unrhyw goed a geir o reoli'r coed yn y Parc Gwledig. Fe wnaethant blannu miloedd o fylbiau brodorol cennin Pedr a lili wen fach mewn digwyddiad yr hydref diwethaf gyda chymorth gan deuluoedd a thîm o Gurkhas o Aberhonddu.

Meddai Eleanor Flaherty o Criw Craggy: "Roedd yn ddigwyddiad hyfryd a byddwn yn plannu llawer mwy o fylbiau'r hydref nesaf. Y gwanwyn hwn, byddwn yn cynnal gweithdy gwneud blychau adar ac ystumod fel y gall aelodau'r gymuned helpu'r bywyd gwyllt yn y Parc Gwledig. Hoffwch ein tudalen Facebook [www.facebook.com/criwcraggy](http://www.facebook.com/criwcraggy) i weld lluniau o'r pethau cyffrous rydyn ni'n eu gwneud!"

**I fod yn rhan o'r Grŵp Cyfeillion cysylltwch ag Eleanor Flaherty ar: [info@eleanorflaherty.co.uk](mailto:info@eleanorflaherty.co.uk)**



**Aelodau Criw Craggy yn plannu bylbiau'r gwanwyn.**

## Pobl yn Gyntaf Caerdydd yn cael eu hysbrydoli i fynd i gerdded yn y Parc Cenedlaethol.

**Sefydliad hunan-eiriolaeth sy'n cael ei redeg gan bobl ag anabledd dysgu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yng Nghaerdydd yw Pobl yn Gyntaf Caerdydd.**

Bu aelodau'r grŵp yn cymryd rhan yn y prosiect 'Inspironment' sy'n cael ei redeg gan Dîm Cymunedau Awdurdod y Parc y llynedd. Anfonwyd at y grŵp deithlenni ar gyfer deg taith gerdded yn y Parc Cenedlaethol a gynhyrchwyd fel rhan o'r prosiect. Rhoddodd hyn yr ysbrydoliaeth iddynt fynd allan i'r amgylchedd (dyna egluro'r enw 'Inspironment!'). Fe wnaethant lwyddo i gael nawdd gan Arian i Bawb i wneud yn union hynny, drwy logi swyddogion o Dîm Cymunedau'r Parc Cenedlaethol i arwain pob un o'r deg daith gerdded drwy gydol yr haf. Mae pawb yn edrych ymlaen!



Os oes gan eich sefydliad chi ddiddordeb mewn cynllunio prosiect cerdded tebyg neu hyfforddiant 'Sgiliau Gwledig' achrededig Agored Cymru gyda'r Tîm Cymunedau, cysylltwch â Francesca Bell, Swyddog Datblygu Cymunedau [francesca.bell@beacons-npa.gov.uk](mailto:francesca.bell@beacons-npa.gov.uk) Ffôn: 01874 624437

**Mae teithlenni 'Inspironment' ar gael i'w lawrlwytho yma: [http://www.breconbeacons.org/explore/things\\_to\\_do/walking/where\\_to\\_walk/inspiration\\_walking\\_itineraries](http://www.breconbeacons.org/explore/things_to_do/walking/where_to_walk/inspiration_walking_itineraries)**

**Aelodau Pobl yn Gyntaf Caerdydd ym Mharc Gwledig Craig-y-nos**

## Dathliadau'r Nadolig ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

**Cyn y Nadolig, fe wnaeth Gwasanaeth Addysg y Parc Cenedlaethol gynnig dau gwrs newydd cyffrous i ysgolion cynradd.**

I blant 3-7 mlwydd oed roedd 'Tro tymhorol a thaith ysbennydd Siôn Corn' yn cynnwys taith gerdded synhwyraidd hudolus drwy'r Parc Gwledig. Bu'r plant yn chwilio am gen i'w fwydo i geirw Siôn Corn ac am gelyni i addurno 'Calennig' traddodiadol - afal wedi'i addurno y mae plant yn ei gario o gwmpas ar fore Calan wrth iddynt ganu am dda-da neu arian.

Gwnaed yr ymweliad yn fwy arbennig fyth oherwydd i Siôn Corn ei hun ddod i weld y plant wrth iddo chwilio am Rwdolff. Dywedodd stori wrthyn nhw am ei daith hudol ar draws y Parc Cenedlaethol cyn rhoi anrhegion bach ond addas iddynt.

Bu'r plant 7-11 oed yn mwynhau rhannu arferion traddodiadol Cymreig. Bu'r plant yn dysgu ac yn canu carol Blygain draddodiadol ac yn gwneud 'Calennig' yn barod ar gyfer dathliadau'r Flwyddyn Newydd. Fe wnaethant hefyd gyfarfod â'r 'Fari Lwyd', penglog ceffyl wedi ei addurno gyda rhubanau a chynfas wen wedi'i osod ar bolyn. Dysgodd y plant am ei champau gan ysgrifennu am y rhain mewn bwrdd stori.

Fe wnaethant y gorau o'u hymweliad â Chraig-y-nos gyda thaith gerdded geogelcio aeafol, gan gasglu ffeithiau tymhorol diddorol ar hyd y ffordd.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn - "Cafodd ein plant a'r staff amser gwych gyda chi" ymatebodd un athro "gofynnodd y plant a gaent fynd yn ôl"

**Am ragor o fanylion am gyrsiau addysg y Parc Cenedlaethol ewch i <http://www.bannaubrycheiniog.org/dysgu/> Ffôn: 01876 624437**

**Plant o Ysgol Gynradd Christchurch gyda Siôn Corn ac un o'i gorachod - y Swyddog Addysg Hayley Sharp.**



## Wyneb newydd yn ymuno â Tîm Ecoleg Awdurdod y Parc Cenedlaethol

**Yn ddiweddar, ymunodd Buffy Beck (myfyrwraig isradd ym Mhrifysgol Caerdydd) â'r Awdurdod fel rhan o leoliad Blwyddyn Hyfforddiant Proffesiynol wedi'i lleoli gyda'r Tîm Ecoleg. Mae hefyd yn treulio amser gydag adrannau a phartneriaid eraill. Ysgrifennodd Buffy:**

Dechreuodd fy lleoliad blwyddyn ddechrau mis Medi pan gefais fy nghyflwyno i'r llu o wahanol adrannau o fewn yr Awdurdod. Bûm yn cyflawni llu o wahanol dasgau megis mynd gyda'r Tîm Ecoleg ar ymweliadau safle i Barc Gwledig Craig-y-nos a Chadair Fawr, gan ddsygu ac ymchwilio am y gwahanol rywogaethau yn y Parc Cenedlaethol a chymryd rhan mewn ymarferiad i gyfri'r rugiar goch. Rwy'n credu mai uchafbwynt y mis i mi oedd helpu'r Swyddog Mynediad, Richard Ball, wrth gludo deunyddiau mewn hofrennydd i wella'r llwybrau ar y mynydd. Fe wnes i fwynhau'r diwrnod oer ond yn sych allan yn y maes ac rwy'n gallu dweud yn awr mai fi yw'r unig un o'n nheulu agosaf i fod wedi hedfan mewn hofrennydd, ffaith rwyf wrth fy modd yn atgoffa fy nhad ohoni yn eithaf aml!

Mae hyn wedi bod yn agoriad llygad diddorol i'r gwahanol rolau y gall Ecolegydd eu cyflawni ac rwy'n edrych ymlaen at y misoedd nesaf.



Buffy Beck

## Mae Archeoleg yn hwyl!

**Mae'r Parc Cenedlaethol yn gyfuriog o hanes a threftadaeth i'w canfod a dyna'n union beth mae Clwb Archeolegwyr Ifanc Bannau Brycheiniog yn ei wneud, gyda chefnogaeth Archeolegydd y Parc Cenedlaethol.**

Hoffai Clwb Archeolegwyr Ifanc Bannau Brycheiniog ddenu aelodau newydd rhwng 8 a 16 oed. Maent wedi'u lleoli yn Neuadd Subud yn Aberhonddu ac maent yn cyfarfod ar yr ail ddydd Sadwrn o'r mis. Nod y Clwb yw gwneud dysgu am archaeoleg yn ddiddorol ac yn hwyl ac mae'n un o dros 70 o glybiau tebyg ledled y wlad. Ewch i'r wefan i gael gwybod mwy [www.yac-uk.org](http://www.yac-uk.org)



BBYAC

**Aelodau'r clwb yn cymryd rhan mewn cloddfa archeoleg.**

Cyn belled, mae'r clwb wedi rhoi cynnig ar goginio ar ddull Rhufeinig, wedi cael brwydr; wedi bod yn cloddio, wedi bod yn edrych ar gelf ogofau, wedi cael ymweliad gan Lychlynwyr; wedi bod yn cerdded ac wedi dysgu sut mae archeolegwyr go iawn yn gweithio.

**Y gost ydy £3 y plentyn y sesiwn.**

**E-bost: [bbyac1@btinternet.com](mailto:bbyac1@btinternet.com)**

**Mae'r clwb hefyd yn chwilio am oedolion i fod yn arweinyddion tîm. Darperir hyfforddiant a chefnogaeth drwy'r rhwydwaith YAC.**

**Cysylltwch â nhw ar [bbyac1@btinternet.com](mailto:bbyac1@btinternet.com)**

## Datblygiadau cyffrous yng Nghastell y Gelli

**Ym mis Tachwedd 2016 cymeradwyodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gais cynllunio i adfer Castell y Gelli i gynnwys gofod cymunedol a siopau.**

Gweithiodd yr Awdurdod yn agos gyda nifer o sefydliadau cenedlaethol a grwpiau lleol i sicrhau y byddai'r cynigion yn dderbyniol.

Mae Castell y Gelli yn gaffaeliad pwysig i gymuned leol y Gelli Gandryll a'r Parc Cenedlaethol ei hun. Drwy ailddechrau defnyddio'r adeilad drachefn, mae Ymddiriedolaeth Castell y Gelli yn helpu i adfywio'r ardal leol. Bydd y prosiect yn caniatáu i'r cyhoedd ehangach gael mynediad llawn i'r safle am y tro cyntaf ers dros 800 mlynedd. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn falch iawn o fod wedi chwarae rhan bwysig yn y prosiect uchelgeisiol a chyffrous hwn.

## Chwedlau Cymreig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**2017 yw Blwyddyn Chwedlau Croeso Cymru ac i ddathlu rhai o'r chwedlau gorau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog rydym yn gweithio gyda Horatio Clare, sy'n awdur ac yn newyddiadurwr sydd wedi ennill nifer o wobrau.**

Mae'r straeon yn cael eu hailysgrifennu mewn arddull gyfoes. Bydd y llyfr yn cael ei lansio yng ngŵyl Lenyddol y Gelli ym mis Mai. Gall ymwelwyr a thrigolion ymweld â rhai o'r lleoliadau neu fynd am dro i gael profiad o'r chwedlau; bydd teithlenni ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan cyrchfan Bannau Brycheiniog [www.breconbeacons.org](http://www.breconbeacons.org)

Dyma'r chwedlau: Cyflafan Diwrnod Nadolig • Syr Thomas Vaughan • Henry Vaughan • Gwir Dywysog Cymru • Rourkes Drift • Adelina Patti • Morwyn Llyn y Fan Fach a Meddygon Myddfai • Menyw Wen Tretŵr • Arthur a'i Farchogion cwsig • Twrch Trwyth • Ffordd Macnamara • Llyn Cwm Llwh.

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Carol Williams, Swyddog Twf Twristiaeth, [carol.williams@beacons-mpa.gov.uk](mailto:carol.williams@beacons-mpa.gov.uk) 01874 620478**



Matt Botwood

## Adrodd am Faterion Hawliau Tramwy

Gellid sôn am unrhyw faterion yn ymwneud â hawliau tramwy fel difrod i lwybrau troed, camfeydd neu fynegbyst wrth ein Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones:

eifion.jones@beacons-npa.gov.uk  
neu ffoniwch 01874 620452

## Cymhorthfa Gynllunio

Am gyngor ar ddatblygiadau i ddeiliaid tai ac ymholiadau cyffredinol, bob dydd Mercher, o 9.30 -12.00 yb a 1.30-3.00 ym Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Aberhonddu. Mae apwyntiadau ar gael am gyfnodau o 30 munud, a rhaid eu harchebu ymlaen llaw.

Am apwyntiad neu unrhyw ymholiad cynllunio cyffredinol ffoniwch 01874 620431 os gwelwch yn dda.

## Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

I gael mwy o wybodaeth a chynghor am y Gronfa hon cysylltwch naill ai â

Helen Roderick  
neu Ceri Bevan ar 01874 620471

Ebostiwrch  
helen.roderick@beacons-npa.gov.uk  
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau grant 2017

- 15fed Mawrth
- 21ain Mehefin
- 30ain Awst
- 8fed Tachwedd



## Y peiriant malu a'r mwg

Mae Deborah Perkin yn un o Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol a hi yw ei Hyrwyddwr Busnes a Chymunedau. Yn ddiweddar, treuliodd Deborah ddiwrnod hyfforddiant gyda staff y Parc Cenedlaethol. Dyma sut hwyl gafodd hi.....

Efallai fy mod i'n gwybod un neu ddau o bethau am lywodraethu, partneriaethau a darlledu, ond fel Aelod cymharol newydd o'r Awdurdod, dydw i ddim yn arbenigwr cadwraeth. Felly trefnodd yr Awdurdod ddiwrnod hyfforddi ar fy nghyfer yng Nghaeau Tŷ Mawr ar lannau deheuol Llyn Syfaddan. Mi gefais lawer o hwyl a dysgu llawer iawn hefyd...bod ceffylau yn fwytywyr llai ffyslyd na defaid ac felly'n fwy defnyddio i bori rhai manau...bod coed gwern yn ddewis gwych i sefydlu coetir newydd gan eu bod yn sefydlu nitrogen yn y pridd...bod y tannin mewn rhisgl yn gallu cael ei ddefnyddio i drin lledr: pobl, anifeiliaid a thirweddau yn gweithio i ddiogelu'r tirweddau sy'n agos at ein calonnau ni oll.

Roedd yr Ecologydd Rebecca Price yn llawn brwdfrydedd i rannu ei wybodaeth arbenigol am blanhigion gwyllt a chefais gyfle i gwrdd â Warden yr Ystâd Paul Chapman, wrth iddo oruchwylio chwe Warden newydd wrth eu gwaith yn clirio prysgwydd a choed mawr oddi ar y glaswelltir: Bu'r hyfforddai, Gavin Vella, yn ddigon caredig i roi cyfle i mi gael tro ar y peiriant Scag (ar ôl ychydig o hyfforddiant gan Paul). Mae'r peiriant hwn yn torri ac yn deisio'r llwyni mwyaf trwchus, heb gorddi'r ddaear. Cefais y boddhad rhyfeddaf o weld yr holl dyfiant uchel yn cael ei falu a'i gnoi.

Am y rhan fwyaf o'r dydd fe wnes i eu helpu i gwmpo coed, eu torri yn foncyffion i'w defnyddio a'u llosgi. Cyfarfûm â'r hyfforddeion, a buont yn dweud wrthyf sut maen nhw'n meithrin sgiliau newydd. Rwy'n teimlo'n falch iawn o'r bobl ifanc hyn a phawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith o sefydlu a rhedeg y cynllun Sgiliau ar Waith a ariennir drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri – Sgiliau ar gyfer y Dyfodol. Diolch i bawb am ddiwrnod gwych, allan o'r swyddfa! A phob lwc i'r holl hyfforddeion ar gyfer gweddill y flwyddyn a thu hwnt.

## Grantiau'n dal ar gael oddi wrth y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae yna'n dal grantiau bychan ar gael i'w gwario cyn diwedd mis Mawrth. Os oes gan eich cymuned syniad ac yr hoffech ei drafod, cysylltwch â Ceri Bevan neu Helen Roderick cyn gynted â phosib- gweler y panel ochr am fanlyion.

I roi ichi syniad ba fath o brosiectau sy'n debygol o gael grant, dyma rai ceisiadau llwyddiannus diweddar:-

- **Canolfan Deulu St. John, Aberhonddu**  
Grant ar gyfer prosiectau ac i recriwtio gwirfoddolwyr. Mae'r Ganolfan yn cynnal Clwb Cinio bob dydd Llun, yn rhedeg Cydweithfa Fwyd a banc bwyd bob wythnos, a bydd Clwb Garddio yn aildechrau yn y gwanwyn. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli neu ymuno ag unrhyw rai o'r gweithgareddau gysylltu ag Alix ar 01874 611723/07872993138 neu e-bostio: stjohnsbrecon.bsr@swanseabrecon.org.uk
- **Yr Hen Ysgoldy, Defynnog** Grant i brynu deunydd inswleiddio a gwydriad eilaidd, fel rhan o brosiect effeithlonrwydd-ynni mawr.
- **Canolfan Wirfoddolwyr Aberhonddu** Grant bychan i helpu i brynu uned cegin a gwresogydd dŵr mewn adeilad newydd a fydd hefyd yn eu helpu i ennill mwy o incwm drwy gynnal cyfarfodydd/digwyddiadau bychain. Gallwch gysylltu â'r Ganolfan Wirfoddolwyr ar: vbxbrecon@fsmail.net Ffôn: 01874 625393
- **Cwmni Masnachu Myddfai** Grant i gynyddu eu cyfleusterau cynhyrchu a galluogi mwy o ffyrwyr o Goleg Elidyr i weithio gyda nhw.
- **Rhif 9 Bell Street, Talgarth** Bydd grant treftadaeth gan y Gronfa yn sicrhau bod blaen y siop yn cael ei adnewyddu.

## Eisiau ystafell gyfarfod yn Aberhonddu?

Mae'r canlynol ar gael i'w llogi gennym:

- Ystafell gynhadledd
- Ystafell Fideo-gynadledda
- Ystafell Aelodau

Gwasanaeth Arlwyyo ar gael  
Am fanylion cysylltwch â'r  
Dderbynfa 01874 624437  
neu edrychwch ar  
<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/llogi-ystafell/>

## Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthyc y Babel Fawr  
Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau,  
ysgolion, elusennau a sefydliadau  
dielw eraill o fewn y Parc  
Cenedlaethol ddefnyddio'r Babel  
Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu  
digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu,  
cysylltwch â Ceri Bevan ar  
01874 620471  
[ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk](mailto:ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk)

## Gweddarllediadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod  
ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein  
gweddarllediadau. Ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/gweddarlledu/>

## Digwyddiadau Chwefror – dechrau Medi 2017

I weld manylion a rhestr estynedig o weithgareddau a digwyddiadau yn y  
Parc Cenedlaethol ewch i <http://www.breconbeacons.org/events>



Yn 2017 bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dathlu ei Ben-blwydd yn 60 oed ac i ddathlu, mae'r Awdurdod yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau:

- **Parti yn y Parc** dydd Sul 30 Gorffennaf. Byddwn yn trefnu partiön pen-blwydd gyda phaned, cacen ynghyd â gweithgareddau sy'n cynnwys teithiau cerdded, sgysiaid gyda wardeiniaid a gweithgareddau i blant gyda'n tîm addysg. Cynhelir y rhain yng Nghanolfan Groeso'r Parc Cenedlaethol ac ym Mharc Gwledig Craig-y-nos, ond rydym yn gobeithio y bydd gan gymunedau lleol ddiddordeb mewn cynnal digwyddiadau – bwriad y dathliadau hyn ydy hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu fod yn rhan o'r trefniadau cysylltwch â [communications@beacons-npa.gov.uk](mailto:communications@beacons-npa.gov.uk).
- **Arddangosfa bortreadau deithiol** o rhwng 15 ac 20 o ffotograffau yn dangos trigolion y Parc Cenedlaethol. Byddwn yn comisiynu portreadau o bobl lleol gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned ffermio, twristiaeth ac atyniadau a phlant ysgol ac yn cyflwyno'r arddangosfa i gymunedau ym mhob cwr o'r Parc yn ystod y flwyddyn.
- **Cystadleuaeth i ysgolion ar gyfer addurno ffenestri mewn siopau gwag.** Byddwn yn gweithio gyda busnesau ac ysgolion lleol i gynnal cystadleuaeth i osod arddangosiadau mewn ffenestr siop. Bydd plant ysgol yn gallu dangos beth mae byw mewn Parc Cenedlaethol yn ei olygu iddyn nhw nawr- a sut maen nhw'n gweld eu dyfodol yma.

20fed Mai - 4ydd Mehefin

## Gŵyl Geoparc y Fforest Fawr.

Teithiau cerdded, sgysiaid, arddangosfeydd mewn amrywiol leoliadau yn y Geoparc ynghyd â diwrnod gweithgareddau i'r teulu ym Mharc Gwledig Craig-y-nos  
<http://www.geoparcyfforestfawr.org.uk/beth-syn-digwydd/>



Mae ein Canolfan Ymwelwyr a'r Parc Gwledig ar agor bob dydd o'r flwyddyn ac eithrio Dydd Nadolig. Mae mynediad am ddim ond codir tâl am barcio.

## Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Libanus, ger Aberhonddu  
LD3 8ER

- Gwybodaeth
- Ystafelloedd Te a Bwyty
- Siop grefft
- Toiledau
- Hurio Ystafelloedd
- Priodasau

Ffôn: 01874 623366

npvc@beacons-npa.gov.uk  
[http://www.breconbeacons.org/12\\_visitor\\_centre?lan=cy](http://www.breconbeacons.org/12_visitor_centre?lan=cy)

## Parc Gwledig Craig-y-nos

Pen-y-cae, Cwm Tawe SA9 1GL

- Ystafelloedd Te a Bwyty - Changing Seasons  
Ffôn: 01639 731498
- Toiled i bobl anabl gyda lle i newid clwt y baban 24 awr
- Hurio ystafelloedd
- Gofod arddangos
- Canolfan grefft
- Stiwdio wydr
- Stiwdio a chysiau ffotograffiaeth

Ffôn: 01874 624437

enquiries@beacons-npa.gov.uk  
[http://www.breconbeacons.org/6\\_craig\\_y\\_nos](http://www.breconbeacons.org/6_craig_y_nos)

## Digwyddiadau yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

24ain Mawrth	Syllu ar y Sêr gydag Awyr Dywyll Cymru
8fed a 9fed Ebrill	Diogelwch ar y Mynydd – Cwrs Efydd
13eg a 14eg Mai	Diogelwch ar y Mynydd – Cwrs Efydd
27ain, 28ain a 29ain Mai	Sioe Bebyll Cotswold
10fed ac 11eg Mehefin	Diogelwch ar y Mynydd – Cwrs Efydd
21ain Mehefin	Gwyllo'r Haul gydag Awyr Dywyll Cymru ar thema heuldro'r haf
8fed a 9fed Gorffennaf	Diogelwch ar y Mynydd – Cwrs Arian
25ain Gorffennaf, 1af, 8fed, 15fed, 22ain a 30ain Awst	Gweithdy Crochenwaith Take pART
26ain Gorffennaf, 2il, 9fed, 16eg, 23ain a 29ain Awst	Gweithdy Gwaith Ffelt Take pART
29ain Gorffennaf	Sgopiau Solar gyda Chymdeithas Seryddol Caerdydd
30ain Gorffennaf	'Parti yn y Parc' i Ddathlu ein Pen-blwydd yn 60
11eg Awst	Syllu ar y Sêr Cawod Meteor Perseid gydag Awyr Dywyll Cymru
26ain i 28ain Awst	Gŵyl Haf a Sioe Bebyll Cotswold
9fed a 10fed Medi	Diogelwch ar y Mynydd – Cwrs Efydd



Michael Sinclair

## Digwyddiadau ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

Chwefror 20fed	Gwneud Bocsys Adar ac Ystlumod
Ebrill 19eg a 29ain	Dyddiau 'Rhoi Cynnig ar Gyfeiriannu'
Ebrill 17eg a 19eg	Caneuon yn y Tŷ Cychod
31ain Mai	Diwrnod Gweithgareddau Gŵyl Geoparc Fforest Fawr
31ain Mai, 12fed Gorffennaf, 16eg Awst	Dyddiau Rhagflas (Adar a Gwenyn)
30ain Gorffennaf	'Parti yn y Parc' i Ddathlu ein Pen-blwydd yn 60
Awst 28ain	Ffair Grefftau
Medi 3ydd	Ceir Clasurol yn y Parc Gwledig



Matt Botwood

## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Adnoddau Dynol	Liz Lewis	elizabeth.lewis@beacons-npa.gov.uk	01874 620436
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, 'Y Ganolfan Fynydd', Libanus	Gwasanaethau Ymwelwyr	npvc@beacons-npa.gov.uk	01874 623366
Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir	Julian Atkins	jean packer@beacons-npa.gov.uk	01874 620469
Cyfathrebu a'r wasg	Jo Maurice Clarissa Price	communications@beacons-npa.gov.uk	01874 620406 01874 620420
Cyfarwyddwr Cynllunio	Christopher Morgan	danielle.french@beacons-npa.gov.uk	01874 620428
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	communities@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Cyllid	Elaine Standen	elaine.standen@beacons-npa.gov.uk	01874 620467
Cynllun Rheoli	Matt Scanlon	matthew.scanlon@beacons-npa.gov.uk	01874 620465
Ecoleg	Brad Welch	bradley.welch@beacons-npa.gov.uk	01874 620411
Gwasanaethau Democraidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk	01874 620400
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	alan.bowring@beacons-npa.gov.uk	01874 620415
Gorfodi Cynllunio	Fiona Mead/Kathy Jenkins	enforcement@beacons-npa.gov.uk	01874 620416
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 620422
Gwirfoddoli	Jackie Thomas	jacqueline.thomas@beacons-npa.gov.uk	01874 620451

### Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

## Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddaraf

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.



**Gallwch drydar â ni ar @croesobannaub neu â Thîm ein Wardeniaid ar @BBParkWarden**



**Dilynwch ni drwy Facebook [www.facebook.com/bannaubrycheiniog](http://www.facebook.com/bannaubrycheiniog)**



**Gweler ein Youtube Channel Videos [www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA](http://www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA)**



**[www.instagram.com/breconbeacons](http://www.instagram.com/breconbeacons)**

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

ffotograffau © APCBB

## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswilt/Swyddogion	Manylion Cyswilt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	eifion.jones@beacons-npa.gov.uk	01 874 620452
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01 874 624437
Prif Weithredwr	John Cook	jean.packer@beacons-npa.gov.uk	01 874 620469
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Matt Scanlon	matthew.scanlon@beacons-npa.gov.uk	01 874 620465
Technoleg Gwybodaeth	Paul Funnell	paul.funnell@beacons-npa.gov.uk	01 874 620459
Treftadaeth	Alice Thorne Rosie Burton Janet Poole	alice.thorne@beacons-npa.gov.uk rosie.burton@beacons-npa.gov.uk janet.poole@beacons-npa.gov.uk	01 874 620418 01 874 620413 01 874 620413
Twristiaeth gynaliadwy	Richard Tyler	richard-tyler@beacons-npa.gov.uk	01 874 620405
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	judith.harvey@beacons-npa.gov.uk	07854 997510

